



TRETH Y CYNGOR

NODIADAU EGLURHAOL

Bandiau Prasio Treth y Cyngor

Erbyn hyn mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi cwblhau adbrisiad ynghylch yr holl eiddo domestig yng Nghymru a chafodd yr holl anheddau eu doddi yn un o naw band prisio yn ôl eu gwerth cyfalaf fel yr oedd ar Ebrill 1af 2003. Mae eich bil Treth y Cyngor yn dangos y band ar gyfer eich annedd chi. Dyma'r bandiau ar gyfer Cymru:-

Band Prasio	Amrediad y Gwerthoedd	Band Prasio	Amrediad y Gwerthoedd
A	Hyd at £44,000	F	£162,001 - £223,000
B	£44,001 - £65,000	G	£223,001 - £324,000
C	£65,001 - £91,000	H	£324,001 - £424,000
D	£91,001 - £123,000	I	£424,001 a mwy
E	£123,001 - £162,000		

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'ch band, gallwch gysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar 03000 505505.

Apeliadau

Am wybodaeth ar sut i apelio yn erbyn eich band treth gyngor cysylltwch ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ctwales@voa.gsi.gov.uk neu Treth Gyngor Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Tŷ Glyder, 339 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1EP. Efallai byddwch am apelio yn erbyn rhai penderfyniadau a wneir gan y Cyngor (e.e. materion ynglŷn ag atebolrwydd, anheddau trehadwy neu gyfrifiadau'r dreth gyngor). Yn yr achosion hyn, dylech ysgrifennu at y Cyngor fel y gellir adolygu eich achos. Os nad ydych yn fodlon gydag ateb y Cyngor, gallwch apelio i Dribiwnlys Prasio.

OS YW'CH ARCHEB TALU TRETH Y CYNGOR YN DANGOS EICH BOD YN DERBYN DISGOWNT/ESEMPTIAD NEU UNRHYW OSTYNGIAD ARALL BYDDWCH CYSTAL Â DARLLEN Y NODIADAU EGLURHAOL.

OS CREDWCH EICH BOD YN DAL I FOD Â'R HAWL I DDERBYN Y BIL LLAI YNA NID YDYCH YN GORFOD CYMRYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL. OS, FODD BYNNAG, YW'CH AMGYLCHIADAU WEDI NEWID AC NAD OES GYDA CHI MWYACH YR HAWL I GAEL Y GOSTYNGIAD YNA RYDYCH CHI'N GORFOD YN ÔL Y GYFRAITH RHOI GWYBOD I'R CYNGOR AR UNWAITH.

Isod mae disgrifiad byr o'r esemptiadau a'r disgowntiau sydd ar gael. Dim ond ar gyfer cyfarwyddo y mae'r wybodaeth; mae manylion llawn yr esemptiadau a'r disgowntiau unigol ar gael ar gais.

Anheddau Esempt

Bydd y rhan fwyaf o anheddau yn gorfod talu treth y cyngor ond bydd rhai yn esempt ac ni fydd unrhyw dreth y cyngor i'w thalu arnynt. Dyma hwy:

Categori Disgrifiad

- A - Eiddo sy'n wag ac yn ddiddodrefn i raddau helaeth sydd angen neu sy'n cael, neu sydd wedi cael, gwaith atgyweirio sylweddol neu newidiadau saernïol er mwyn ei wneud yn addas i fyw ynddo. Mae'r esemptiad yn parhau am chwe mis ar ôl cwpla'r gwaith neu am uchafswm o 12 mis, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf.
- B - Eiddo y mae elusen yn berchen arno, a gafodd ei ddefnyddio ddiwethaf ar gyfer dibenion elusennol ac a fu'n wag am gyfnod o hyd at 6 mis.
- C - Eiddo sydd ac a fu'n wag ac yn ddiddodrefn i raddau helaeth am gyfnod o hyd at 6 mis.
- D - Eiddo sy'n wag ac a oedd, neu a fydd, yn unig neu brif breswylfan person sydd yng nghadw.
- E - Eiddo sy'n wag ac a oedd yn unig neu brif breswylfan person sydd mewn ysbyty, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, cartref nyrsio ar gyfer iechyd meddwl neu hostel.
- F - Eiddo sy'n wag ac sy'n cael ei gadw gyda chynrychiolwyr personol person ymadawedig am gyfnod o hyd at 6 mis ar ôl caniatáu profiant.
- G - Eiddo sy'n wag lle mae'r feddiannaeth wedi'i gwahardd gan y gyfraith.
- H - Eiddo sy'n wag ac sy'n cael ei gadw fel ei fod ar gael i'w feddiannu gan weinidog crefydd.
- I - Eiddo sy'n wag lle cafodd ei feddiannu ddiwethaf gan berson sy'n breswilydd mewn man arall ac sy'n derbyn gofal.
- J - Eiddo sy'n wag lle cafodd ei feddiannu ddiwethaf gan berson sy'n breswilydd mewn man arall ac sy'n darparu gofal.
- K - Eiddo sy'n wag lle cafodd ei feddiannu ddiwethaf gan fyfyrwr neu fyfyrwyr yn unig.
- L - Eiddo sy'n wag lle mae'r morgeisai â meddiant o dan y morgais.
- M - Eiddo sy'n neuadd breswyl ar gyfer myfyrwyr.
- N - Eiddo sy'n cael ei feddiannu gan fyfyrwr neu fyfyrwyr yn unig.
- O - Eiddo y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn berchen arno, sy'n cael ei gadw ar gyfer lletya'r lluoedd arfog.
- P - Eiddo lle mae o leiaf un person atebol yn aelod o lu ar ymweliad neu'n oedolyn sy'n dibynnu ar aelod o lu ar ymweliad.
- Q - Eiddo sy'n wag ac sy'n cael ei gadw gan ymddiriedolwr mewn methdaliad.
- R - Eiddo sy'n cynnwys llain neu angorfa sydd heb garafán na chwch.
- S - Eiddo sy'n cael ei feddiannu yn unig gan berson neu bersonau o dan 18 oed.
- T - Eiddo sy'n wag, sy'n rhan o eiddo sengl sy'n cynnwys annedd arall ac na chaiff ei ddodi ar osod ar wahân i'r annedd arall honno heb dorri'r rheolaeth cynllunio.
- U - Eiddo sy'n cael ei feddiannu yn unig gan berson neu bersonau sydd â nam difrifol ar y meddwl.
- V - Eiddo lle mae o leiaf un person atebol yn ddiplomat neu'n berson y mae breintiau diplomyddol wedi'u rhoi iddo/iddi.
- W - Eiddo sy'n cynnwys rhandy neu rywbeth cyffelyb ac sy'n cael ei feddiannu gan berthynas sy'n ddibynnydd.

Os credwch y gallai eich eiddo fod yn esempt, dylech gysylltu â'r Cyngor.

Pobl ag Anableddau

Os oes angen ystafell ychwanegol neu fwy o le arnoch chi neu rywun sy'n byw gyda chi yn eich cartref e.e. er mwyn defnyddio cadair olwyn neu oherwydd anabledd, mae'n bosibl y byddwch yn gallu cael gostyngiad ar eich bil. Bydd y gostyngiad hwn yn cymryd yn ganiataol bod eich cartref wedi'i leoli yn y band prisio sy'n berthnasol i gartrefi yn union islaw'r band go iawn. Os yw'ch cartref yn Band A, mae hi dal yn bosibl eich bod yn gymwys i dderbyn gostyngiad. Cysylltwch â'r Cyngor am fwy o wybodaeth os credwch eich bod yn dal i fod yn gymwys.

Disgowntiau

Mae yna ostyngiadau ar gael i leihau eich atebolrwydd i dreth y gyngor, gall fod yn ostyngiad o 25% neu 50% yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Er enghraifft, os mai chi yw'r unig berson sy'n byw mewn annedd, byddwch yn gymwys i gael gostyngiad o 25%. Fodd bynnag, os oes mwy nag un person yn byw yn yr annedd, mae'n bosibl y byddwch yn dal i fod yn gymwys i gael gostyngiad o 25% neu 50% yn ddiybinnol ar amgylchiadau'r preswylwyr. Nid yw'r bobl a restrir isod yn cael eu hystyried fel preswylwyr ac os credwch eich bod yn gymwys i dderbyn gostyngiad, cysylltwch â'r Cyngor.

- 1 - Carcharorion
- 2 - Pobl ag anabledd meddwl difrifol
- 3 - Pobl y mae Budd-daliadau Plant yn daladwy ar eu cyfer
- 4 - Y mwyafrif o fyfyrwyr llawn amser
- 5 - Cleifion ysbyty
- 6 - Cleifion mewn cartrefi gofal preswyl, cartrefi nyrsio, cartrefi nyrsio salwch meddwl
- 7 - Gweithwyr gofal penodol
- 8 - Preswylwyr mewn hostelau penodol neu gysgodfannau nos
- 9 - Aelodau Pencadlysoedd Rhyngwladol a Sefydliadau Amddiffyn (e.e. NATO)
- 10 - Aelodau cymunedau crefyddol
- 11 - Pobl ifanc penodol sydd wedi gadael yr ysgol
- 12 - Aelodau lluoedd arfog ar ymweldiad a'u hoedolion dibynnol

Disgownt i Berson Sengl – trigolion sydd wedi cyrraedd eu 18 oed

Sylwer: efallai nad yw'r disgownt i berson sengl yn gymwys mwyach, os oes unrhyw drigolyn arall yn yr un annedd yn cyrraedd ei 18 oed, oni bai ei fod yn gymwys i'w ddiystyru at ddibenion treth y cyngor. Am ragor o wybodaeth darllenwch y rhestr uchod neu cysylltwch â'r Gwasanaethau Refeniw.

Ail Gartrefi

Mae eiddo sy'n wag ac wedi'u dodrefnu yn cael eu cynnwys yn Rheoliadau (Dosbarthiadau Penodedig o Anheddau) (Cymru). Mae'r Cyngor wedi penderfynu peidio â dyfarnu unrhyw ddisgownt i eiddo sy'n cael eu cynnwys yn y dosbarthiadau diffiniedig hyn.

Premiwm Ail Gartref

Diffiniad ail gartref yw annedd nad yw'n unig gartref nac yn brif gartref i rywun ac sydd wedi'i ddodrefnu i raddau helaeth. Mae'r Cyngor wedi penderfynu codi premiwm o 50% am flwyddyn ariannol 1.4.17 i 31.3.18 yn ogystal â'r gyfradd treth gyngor safonol ar gyfer eiddo sy'n syrthio o fewn y diffiniad hwn. Mae'r rheoliadau'n rhagnodi 7 dosbarth o anheddau y disgwylir o'r premiwm:-

- Dosbarth 1 - Anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gwerthu – amser wedi'i gyfyngu i un flwyddyn
- Dosbarth 2 - Anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gosod - amser wedi'i gyfyngu i un flwyddyn
- Dosbarth 3 - Rhandai sy'n rhan o'r brif annedd neu'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Dosbarth 4 - Anheddau a fyddai'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa i rywun pe na fyddent yn byw yn llety'r lluoedd arfog
- Dosbarth 5 - Lleiniau carafán ac angorau cychod sy'n cael eu preswyllo
- Dosbarth 6 - Anheddau lle mae amod cynllunio'n atal defnydd ohono am gyfnod parhaus o 28 d wrnod o leiaf mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, fel cabanau gwyliau a thai haf a adeiladwyd i'r pwrpas hwnnw.
- Dosbarth 7 - Anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt yn gyfnodol gan fod angen iddo/i fyw yn rhywle arall mewn llety cysylltiedig â swydd.

Os credwch na ddylech dalu'r premiwm neu os ydy'ch eiddo'n syrthio o fewn y diffiniad uchod ond nad yw'ch bil yn adlewyrchu'r ffi ychwanegol, dylech roi gwybod i'r Cyngor ymhen 21 diwrnod. Gallai methu cyflenwi gwybodaeth neu roi gwybodaeth anghywir arwain at gosb o £50.00, taliad y gallai'r Llys Ynadon ei orfodi.

I gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r eithriadau uchod, cysylltwch â'r Gwasanaethau Refeniw.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Bydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynorthwyo'r bobl hynny sy'n cael incwm isel i dalu eu biliau treth gyngor. Er enghraifft os ydych chi'n cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith (yn Seiliedig ar Incwm) yna ni fyddwch, fel arfer, yn talu treth gyngor o gwbl. Efallai y byddwch yn gymwys i gael gostyngiad os ydych chi'n gweithio a'ch bod yn cael incwm sy'n is na swm penodol. Am ragor o fanylion mae croeso i chi gysylltu â'r Cyngor.

Rhandaliadau Treth Cyngor – 12 misol

Mae modd i chi ddewis talu treth y cyngor fesul 12 rhandaliad misol. Os ydych yn dymuno gwneud hynny cysylltwch â'r Gwasanaethau Refeniw ar 01437 764551 neu e-bostiwch Revenue.services@pembrokeshire.gov.uk erbyn 15 Ebrill er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'ch cais mewn pryd. Os byddwn ni'n derbyn ceisiadau ar ôl 15 Ebrill bydd y rhandaliadau'n cael eu hymestyn dros y misoedd cyfan sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol.

Gostyngiad o Ddewis

Roedd Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn cyflwyno pwerau o ddewis newydd i awdurdodau lleol mewn perthynas â disgowntiau treth y cyngor. Roedd hyn yn rhoi rhagor o ryddid i awdurdodau lleol ben-derfynu neu amrywio disgowntiau ac esemptiadau rhag talu treth y cyngor er mwyn cymryd problemau lleol i ystyriaeth fel llifogydd a thrychinebau naturiol eraill. Gellir gweithredu disgowntiau mewn achosion unigol hefyd.

Rhannu Data a Menter Twyll Genedlaethol

Mae dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddiogelu'r arian cyhoeddus mae'n ei weinyddu. I'r perwyl hwn, gallai ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd iddo o bryd i'w gilydd er mwyn atal a darganfod twyll. Gallai'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod gael ei rhannu o fewn y Cyngor Sir ac/neu ei rhannu gyda chyrrff eraill sy'n gweinyddu arian cyhoeddus, at y dibenion hyn yn unig.

DULLIAU TALU

Isod mae manylion sut y gallwch chi dalu'ch treth y cyngor.

1. Debyd Uniongyrchol (taliadau'n uniongyrchol o'ch cyfrif banc).

Mae talu gyda debyd uniongyrchol yn rhwydd dros ben; os ydych chi'n ffonio'r Cyngor fe wnawn ni'r holl drefniadau angenrheidiol ar eich rhan a dweud wrthy,ch, ymlaen llaw, beth yw swm eich rhandaliadau. Os hoffech dalu fel hyn ffoniwch y Gwasanaethau Refeniw ar 01437 764551 a sicrhau bod gyda chi'ch manylion bancio wrth law. Os ydych wedi dewis y dull hwn yn barod, mae manylion y taliadau i'w cymryd o'ch banc i'w gweld ar waelod yr archeb amgaeedig.

2. Taliadau Ar-lein.

Rydych chi'n gallu talu'ch Treth Gyngor a gweld yn union faint yw'ch gweddill ariannol, trwy fynd ar-lein gyda **'My Account'** - Eich Cyfrif Ar-lein gyda'r Cyngor. Mae croeso ichi fynd at www.pembrokeshire.gov.uk/myaccount i ymgofrestru neu fewngofnodi heddiw.

3. System Ffôn Awtomataidd.

Dyma system awtomataidd sydd ar waith 24 awr y dydd, bob diwrnod o'r wythnos. Fe gewch eich arwain trwy gyfres o anogeiriau yn Saesneg neu Gymraeg, er mwyn dewis y dull talu, y swm, a manylion eich cerdyn credyd/debyd. Fe gewch rif derbynneb. Y rhif ar gyfer y cyfleuster hwn yw 01437 775164.

4. Canolfan Gyswllt - Taliadau dros y Ffôn.

Gallwch dalu dros y ffôn trwy ffonio 01437 764551 o ddydd Llun i Gwener – 9yb tan 5yh.

5. Swyddfeydd Post.

Gallwch dalu mewn unrhyw Swyddfa Bost trwy ddefnyddio chwip-gerdyn plastig banc giro. Os nad oes gyda chi gerdyn yn barod cysylltwch â'r Gwasanaethau Refeniw - Adain y Gogledd, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP. Ffôn: 01437 764551.

6. Canolfannau Gwasanaeth i Gwsmeriaid.

Gall cwsmeriaid gyflwyno taliadau yn unrhyw un o'r swyddfeydd canlynol yn ystod yr oriau a nodir:-

Hwlfordd - Adain y Gogledd, Neuadd y Sir	Dydd Llun - Dydd Gwener 9yb - 5yh
Doc Penfro - Argyle Street	Dydd Llun - Dydd Gwener 9yb - 10.45yb, 11yb - 1yh, 1.45 - 3.15yh, 3.30 - 4.45yh
Aberdaugelddau - Neuadd y Dref	Dydd Llun - Dydd Gwener 9yb - 10.45yb, 11yb - 1yh, 1.45 - 3.15yh, 3.30 - 4.45yh
Abergwaun - Neuadd y Dref	Dydd Llun - Dydd Gwener 9yb - 10.45yb, 11yb - 1yh, 1.45 - 3.15yh, 3.30 - 4.45yh
Neyland - Y Llyfrgell, St Clements Road	Dydd Llun - Dydd Gwener 9.15yb - 1.15yh & 2yh - 4.45yh